# Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

## CWLS (2) 13-06 (p1)

### Dyddiad y cyfarfod: Dydd Mercher, 11 Hydref 2006
### Amser y cyfarfod: 9:00 am - 12:15pm
### Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd

## Adolygu Pêl Droed Yng Nghymru

### Cyflwyniad

Yn y papur hwn mae Cyngor Chwaraeon Cymru (CChC) yn edrych yn gyffredinol ar adolygu pêl droed yng Nghymru, yn seiliedig ar adroddiad yr ymarfer ymgynghori, ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Diwylliant, yr Iaith Gymraeg a Chwaraeon.

### Materion

#### 1. Effeithiolrwydd y strwythur presennol sy'n cefnogi pêl droed

- Sicrhau y ceir dealltwriaeth glir o swyddogaethau a chyfrifoldebau gwahanol y sefydliadau amrywiol yn y byd pêl droed yng Nghymru, e.e. Cymdeithas Bêl Droed Cymru (CBDC), Ymddiriedolaeth Cymdeithas Bêl Droed Cymru (YBCBDC), Uwch-Gynghrair Cymru (UGC), Cymdeithas Bêl Droed Ysgolion Cymru (CBDYC), Cymdeithasau Rhanbarth;
- Hybu a chodi proffil y sefydliadau uchod;
- Adolygu strwythurau'r Llywodraeth yn y byd pêl droed yng Nghymru;
- Adolygu'r mecanweithiau gwneud penderfyniadau er mwyn sicrhau bod pob ardal flaenoriaeth yn cael eu cynrychioli'n briodol ar Gynghorau / Byrddau pêl droed, e.e. merched a genethod, pêl droed yr anabl, grwpiau duon a lleiafrifoedd ethnig (DLlE), ardaloedd wedi'u heithrio'n gymdeithasol;
- Sicrhau bod cynrychiolwyr y Cynghorau / Byrddau pêl droed sy'n rhedeg y sefydliadau'n seiliedig ar sgiliau;
- Os oes angen, cynnal Adolygiad Annibynnol o'r strwythurau rheoli;
- Sicrhau bod strategaeth hirdymor yn bodoli, a chynllun ariannol a chynllun gweithredu blynyddol.

#### 2. Datblygu Pêl Droed

- Mae pêl droed yn mwynhau proffil da yng Nghymru, ond mae angen adeiladu ar hyn o hyd;
- Gwneir gwaith rhagorol gan YCBDC drwy gyfrwng ei mentrau i sicrhau mwy o gymryd rhan, gyda photensial i ddatblygu gêm y merched ymhellach;

- CBDC ac YCBDC yn gweithio mewn partneriaeth i weithredu'r Cynllun Achredu Clwb, a fydd yn cael effaith ar bob clwb iau yng Nghymru;
- Mae pêl droed yn ffodus o fod â strwythur gwirfoddol eang, ond mae'n rhaid gwobrwyo'r bobl hyn er mwyn parhau i wneud defnydd o'u gwasanaethau gwerthfawr;
- Mae'r llwybr perfformio ar gyfer chwaraewyr ieuainc talentog yn ddiffygiol, heb gyfleoedd cystadlu priodol ac mae llawer o'r chwaraewyr yn cael eu gorchwarae yn yr oedran ifanc hwn;
- Mae'r newid o fod yn chwaraewr iau i fod yn chwaraewr hyn yn gymhleth;
- Mae gan bêl droed raglen addysgu hyfforddwyr safonol ond mae angen gwneud gwaith pellach i gefnogi a datblygu hyfforddwyr sy'n gweithio gyda chwaraewyr talentog;
- Cyfleusterau chwarae cyfyngedig a nifer o'r rhain o safon isel ac yn cael eu gorddefnyddio;
- Cefnogi'r prif glybiau yng Nghymru sy'n chwarae mewn pencampwriaethau Ewropeaidd.

## 3. Dyfarnu a Bod yn Swyddog

- Gan fod nifer y swyddogion sydd wedi'u hyfforddi'n gostwng, mae angen mawr am strategaeth i roi sylw i faterion recriwtio ac i ddal gafael ar swyddogion;
- Cyfle i ymgyrchu dros agwedd bositif tuag at ddyfarnwyr a swyddogion i'w gwobrwyo.

## 4. Pêl Droed Merched a Genethod

- Derbyn mwy o gyfrifoldeb am gêm y merched – arwain a darparu cyfarwyddyd a chefnogaeth i Gymdeithasau Rhanbarth a phartneriaid;
- Sefydlu gweithgor cenedlaethol i wella'r cyfathrebu, ystyried strwythurau cystadlu a hybu'r gêm i ferched;
- Integreiddio'r gêm i ferched yn y strwythurau chwarae presennol lle bo modd;
- Sicrhau bod gwirfoddolwyr yn cael eu recriwtio a'u gwobrwyo, a bod modd dal gafael arnynt, er mwyn rhoi cefnogaeth bellach i ddatblygu pêl droed merched.

## 5. Pêl Droed yr Anabl

- Hybu'r strwythur newydd hwn ymhellach drwy roi cyhoeddusrwydd i'r gweithgareddau newydd a phresennol, yn arbennig ymhlith grwpiau anabledd;
- Ystyried integreiddio oddi mewn i strwythurau clwb prif lif yn y dyfodol;
- Bydd adnoddau tîm cenedlaethol yn ystyriaeth allweddol yn y dyfodol.

## 6. Cyfranogiad cymunedol

- Hybu, marchnata a chodi proffil swyddogaethau a chylchoedd gorchwyl y cyrff pêl droed yng Nghymru ymhellach;
- Datblygu ac ehangu'r gwaith yn y grwpiau cymunedol sydd wedi'u heithrio ar hyn o bryd, e.e. merched a genethod, grwpiau anabledd, cymunedau DLlE, ardaloedd cynnwys yn gymdeithasol;
- Defnyddio grym pêl droed i annog mwy o bobl ieuainc i fodloni nodau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer addysg a ffyrdd o fyw egnïol;
- Cyfrannu at a hybu'r deunyddiau sy'n ymgyrchu'n erbyn hiliaeth – gallai'r tîm cenedlaethol

fod yn ddylanwadaol wrth hybu neges wrth-hiliol.

## 7. Cyllid ac Adnoddau

- Pêl droed i gynnal adolygiad o'r gwaith o neilltuo adnoddau ar hyn o bryd a sicrhau cynlluniau ariannol ar gyfer yr hirdymor;
- Cytuno ar wella cyfleusterau'n genedlaethol, gan arenwi adnoddau posibl ar gyfer talu'r costau hyn.